



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Teitl yr adroddiad:	Adolygiad Archwilio Cymru: Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – Cynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio [enw ALI / Bwrdd Iechyd] BCU]
Swyddogion Arweiniol:	Swyddog Arweiniol ALI neu Swyddog Arweiniol y Bwrdd Iechyd Catrin Roberts, Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Lleiand Gogledd Cymru
Awdur yr adroddiad:	Catrin Perry, Rheolwr Busnes – Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Lleiand Gogledd Cymru
Dyddiad:	Ychwanegwch y dyddiad yma

1. Diben yr Adroddiad

- 1.1 Manylu ar yr adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru i Gomisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn gan Gyngorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr [Atodiad 2].
- 1.2 Manylu ar y camau gweithredu Ymateb y Rheolwyr [Atodiad 3] y cytunwyd arnynt yn rhanbarthol sydd yn ymateb i'r argymhellion a roddwyd yn adroddiad Archwilio Cymru.

2. Argymhellion

- 2.1 Bod y Pwyllgor yn nodi'r argymhellion yn adroddiad Archwilio Cymru ar Gomisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn gan Gyngorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr [Atodiad 2].
- 2.2 Bod y Pwyllgor yn nodi'r camau y cytunwyd arnynt yn yr Ymateb y Rheolwyr [Atodiad 3] i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn ac yn cael diweddariadau rheolaidd ar weithredu'r camau gweithredu wrth symud ymlaen.

3. Gwybodaeth gefndir

- 3.1 Fel rhan o'i raglen Archwilio ym mis Awst 2020, dywedodd Archwilio Cymru [AC] wrth Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd y byddai'n cynnal adolygiad o Gomisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn gan Gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cynhaliwyd gweithdy gan AC gyda phartneriaid awdurdodau lleol a byrddau iechyd ym mis Medi 2020 i weithio drwy'r briff drafft ar gyfer yr adolygiad hwn. Cyhoeddwyd y briff terfynol ar gyfer yr adolygiad i Awdurdodau Lleol ym mis Tachwedd 2020.
- 3.2 Fel y nodwyd yn y briff olaf ym mis Tachwedd 2020 [Atodiad 1], nododd diben adolygiad Archwilio Cymru *"Yn ein Hasesiadau Sicrwydd a Risg ar gyfer cynghorau Gogledd Cymru fe wnaethom nodi bod mynd ati'n strategol i gomisiynu lleoliadau gofal nyrsio a phreswyl yn risg i gynghorau a'r Bwrdd Iechyd am y rhesymau canlynol:*
- a. *lefel uchel o wariant ar y gwasanaethau hyn;*
 - b. *codiadau a ragwelir yn niferoedd y bobl hŷn y disgwylir y bydd angen y gwasanaethau hyn arnynt;*
 - c. *argaeledd cyfyngedig staff newydd i gefnogi'r gwasanaethau hyn a chystadleuaeth recriwtio gyda darparwyr eraill gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; a*
 - d. *manteision posibl mynd ati'n strategol i gomisiynu ar draws cyrff sector cyhoeddus Gogledd Cymru nad ydynt wedi cael eu cyflawni hyd yma.*

Ers adnabod bod mynd ati'n strategol i gomisiynu lleoliadau gofal nyrsio a phreswyl yn risg, mae COVID-19 wedi amlygu breuder a chapasiti cyfredol y farchnad ofal a'r angen i gynllunio ar gyfer y farchnad a'i rheoli mewn modd strategol".

- 3.3 Eglurodd y briff y byddai'r adolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn *"A yw partneriaid yn cydweithio'n effeithiol i ystyried newidiadau demograffig a phwysau allanol eraill o ran mynd ati'n strategol i gomisiynu gofal mewn cartrefi nyrsio a phreswyl?"* ac yn canolbwyntio ar y cwestiynau allweddol canlynol:
- a) *A yw'r partneriaid yn cydweithio'n effeithiol i ystyried newidiadau demograffig a phwysau allanol eraill wrth fynd ati'n strategol i gomisiynu gofal mewn cartrefi preswyl a nyrsio?*
 - b) *A yw'r partneriaid wedi ymrwymo'n ffurfiol i'r dull strategol o gomisiynu gofal mewn cartrefi nyrsio a phreswyl?*
 - *A yw'r bwriad strategol yn cael ei danategu gan ddata cadarn a chynlluniau eglur ar gyfer y gweithlu?*
 - *– A yw'r dull strategol yn newid yng ngoleuni pandemig COVID-19?*
 - *– A yw'r dull strategol yn ystyried y risgiau i'r sector (er enghraifft ffioedd, y gweithlu, cynaliadwyedd cartrefi gofal, galw sy'n newid ac ansawdd gwasanaethau)?*
 - *– A yw'r dull strategol yn ystyried mathau eraill o ofal?*

-
- c) A yw'r partneriaid wedi adnabod a sicrhau ymrwymiad ar gyfer yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r strategaeth ac a oes ymrwymiad i reoli'r rhain trwy'r trefniant cyllideb gyfunol?
- A yw'r ymrwymadau i ddarparu adnoddau ar gyfer y strategaeth yn gynaliadwy?
 - – A oes atebolrwydd a chyfrifoldeb ar y cyd am ddarparu datrysiad strategol?
 - – Pa mor dda y mae partneriaid yn ymdrin â rhwystrau (e.e. gwahaniaethau strwythurol, colli rheolaeth, comisiynu'n unigol neu mewn partneriaeth, safonau a disgwyliadau amrywiol)?
- d) A yw'r strategaeth ar gyfer comisiynu gofal mewn cartrefi nyrsio a phreswyl yn gyson â strategaethau allweddol eraill ac yn ateb gofynion deddfwriaethol?
- gofal mewn cartrefi nyrsio a phreswyl?
 - – A yw'r partneriaid yn gweithio i ddeall unrhyw amrywiadau rhanbarthol amhriodol a mynd i'r afael â hwy (cost, cyfraniadau a mynediad at ystod o wasanaethau)?
 - – A all partneriaid ddangos eu bod wedi ystyried deddfwriaeth allweddol fel rhan o ddylunio'r strategaeth?
- e) A yw newid mewn perthynas â chyflawni'r strategaeth hon yn cael ei reoli ac a adroddir arno'n effeithiol?
- A yw strwythurau llywodraethu'r bartneriaeth o gymorth i gyflawni?
 - A oes trefniadau rheoli rhaglen yn eu lle i gyflawni'r newid strategol sy'n ofynnol?

3.3 Cynhaliodd tîm Archwilio Cymru Waith Maes, Adolygiadau Dogfennau, Arsyllwadau Cyfarfodydd a Chyfweliadau gyda staff a defnyddwyr gwasanaeth rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Chwefror 2021.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cyhoeddodd Archwilio Cymru yr adroddiad terfynol drafft i Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd i roi sylwadau ar faterion o gywirdeb a chydbwysedd ym mis Gorffennaf 2021. Paratôdd y Bwrdd Iechyd eu hymateb eu hunain a pharatowyd ymateb ar y cyd gan Swyddogion Gweithredol Awdurdod Lleol Gogledd Cymru a Chyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol. Roeddent yn teimlo'n gryf nad oedd yr adroddiad yn gytbwys, yn cynnwys rhai anghywirdebau ffeithiol ac nad oeddent yn adlewyrchu lleoliadau cartrefi gofal a gomisiynwyd ar gyfer pobl hŷn yng Ngogledd Cymru yn deg.

4.2. Yn dilyn trafodaeth bellach gydag Archwilio Cymru ynghylch yr adborth a'r gwrthwynebiadau allweddol, paratowyd fersiwn ddiwygiedig o'r adroddiad ganddynt ym mis Tachwedd 2021 a dderbyniwyd gan Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol. Cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad Gogledd Cymru ar 16 Rhagfyr 2021 yn unol â'u hamserlen archwilio [gweler Atodiad 2].

-
- 4.3 Paratôdd Archwilio Cymru adroddiad cyfatebol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhanbarthol, comisiynu ac ariannu lleoliadau cartrefi gofal gyda negeseuon ac argymhellion cenedlaethol allweddol i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Ni rannwyd yr adroddiad i Lywodraeth Cymru ond fe'i cyhoeddwyd ar yr un pryd ag adroddiad Gogledd Cymru ac fe'i rhoddir yn Atodiad 4.
- 4.4 Mae adroddiad Archwilio Cymru ar Gomisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn gan Gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gwneud 5 argymhelliad:
- A1 Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau defnydd cyson o gytundebau cyn lleoli ledled y rhanbarth.
- A2 Gall y dull presennol o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal achosi tensiynau rhwng partneriaid ac arwain at werth gwael a phrofiad gwael i'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gydweithio i adolygu trefniadau lleol ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i ddileu effeithiau andwyol y gellir eu hosgoi ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ac ar ei gilydd.
- A3 Mae atebolrwydd yn un o gonglfeini prosesau penderfynu yn y sector cyhoeddus. Mae angen i drefniadau llywodraethu graffu ar benderfyniadau a dwyn penderfynwyr i gyfrif. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gryfhau eu trefniadau llywodraethu wrth weithio mewn partneriaeth i sicrhau atebolrwydd priodol a chraffu effeithiol.
- A4 Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fynd ati, trwy'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, i ddatblygu strategaeth comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal y cytunwyd arni yn rhanbarthol, ac wedyn, datblygu cynllun cyflawni cysylltiedig.
- A5 Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr adolygu eu trefniadau comisiynu ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 4.5 Mewn ymateb i'r adroddiad, gofynnwyd i bob un o Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd baratoi ymateb rheoli cyfunol y cytunwyd arno yn manylu ar sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion. Gofynnodd Archwilio Cymru i'r ymateb cyfunol hwn gael ei gyflwyno erbyn 31 Ionawr 2022. Mae'r Ymateb Rheoli a gyflwynwyd yn Atodiad 3.

5. Ymgynghori ac ymgysylltu

5.1 Ymgynghorodd Archwilio Cymru â defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr yn yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad. Roeddent hefyd yn ymgynghori ag Awdurdodau Lleol a swyddogion y Bwrdd Iechyd ar ddsbarthu'r adroddiadau drafft ac yn ystyried eu hadborth i lywio drafftiau diwygiedig o'r adroddiad.

6. Goblygiadau o ran adnoddau

6.1 Bydd angen amser swyddogion lleol a rhanbarthol i sicrhau bod yr argymhellion a'r camau ymateb i reolwyr yn cael eu gweithredu.

7. Risgiau allweddol

Likelihood	Almost certain	A	Yellow	Orange	Orange	Red	Red
	Likely	B	Yellow	Yellow	Orange	Red	Red
	Possible	C	Green	Yellow	Yellow	Orange	Red
	Unlikely	D	Green	Green	Yellow	Orange	Orange
	Rare	E	Green	Green	Yellow	Yellow	Orange
			5	4	3	2	1
			Very low	Low	Medium	High	Very high
			Impact				

Risgiau

Cyf	Disgrifiad a chamau lliniaru	Sgôr risg
Risg1	Gall capasiti ac amser swyddogion weithredu'r camau gweithredu yn yr Ymateb Rheoli oedi cyn bodloni'r terfynau amser a roddir Lliniaru: Arweinwyr penodedig gydag amser penodol i ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen	Orange
Risg2	Y berthynas rhwng cynlluniau comisiynu lleol a'r strategaeth gomisiynu cartrefi gofal y cytunwyd arni'n rhanbarthol a'r cynllun cyflawni cysylltiedig. Lliniaru: Mapio'r berthynas rhwng cynlluniau lleol a rhanbarthol ac eglurder ynghylch pa agweddau ar y cynllun cyflawni sy'n cael eu gweithredu'n lleol ac sy'n rhanbarthol	Orange
Risg3	Methu â sicrhau ein bod yn cyflawni cyfrifoldebau statudol o amgylch y Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein darpariaeth lleoliadau cartrefi gofal. Lliniaru: Mwy na Geiriau ar waith a sicrhau bod yr Aseidiadau Lles Lleol a'r 7 Nod Llesiant yn llywio ein cynllun comisiynu ar gyfer y dyfodol fel rhan o'r gwaith Asesu Anghenion Poblogaeth a Sefydlogrwydd y Farchnad	Orange

Atodiadau::

Atodiad 1 – Prosiect Archwilio Cymru Breif ar gyfer yr adolygiad o Gomisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal Pobl Hŷn gan Gyngorau Gogledd Cymru ac Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Atodiad 2 - Adroddiad Archwilio Cymru ar Gomisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn gan Gyngorau Gogledd Cymru ac Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr [Rhagfyr 2021]

Atodiad 3 – Ymateb rheoli ar y cyd Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd

Atodiad 4 – Adroddiad Archwilio Cymru i Lywodraeth Cymru ar Gomisiynu Cartrefi Gofal [Rhagfyr 2021]

Papurau cefndir: Dim